**Sarah Murphy AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyfeirnod: MA SM 10886 24

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

14 Ionawr 2025

Annwyl Russell,

**Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cynhyrchion Rheoleiddiedig) (Diwygio, Dirymu, Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol) 2025**

Hoffwn roi gwybod i'r Pwyllgor o'm bwriad i roi cydsyniad i Andrew Gwynne AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Iechyd y Cyhoedd ac Atal, osod gerbron Senedd y DU, yn unol â'r weithdrefn gadarnhaol, Reoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cynhyrchion Rheoleiddiedig) (Diwygio, Dirymu, Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol) 2025 ("y Rheoliadau").

Diben y Rheoliadau yw gwneud diwygiadau sylweddol, trwy Brydain Fawr i gyd, i'r prosesau awdurdodi cyn rhoi ar y farchnad o fewn cyfundrefnau deddfwriaethol ar gyfer cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig. Nod y Rheoliadau yw lleihau baich rheoleiddiol y broses gymeradwyo ar gyfer cynhyrchion rheoleiddiedig mewn perthynas â bwyd a bwyd anifeiliaid a roddir ar y farchnad ym Mhrydain Fawr.

Bydd y Rheoliadau'n cyflwyno dau brif gynnig polisi:

- dileu'r cyfnod awdurdodi penodol o 10 mlynedd (a'r prosesau adnewyddu cysylltiedig) o dair o'r cyfundrefnau ar gyfer cynhyrchion rheoleiddiedig

- galluogi i awdurdodiadau cynhyrchion rheoleiddiedig gael eu gwneud drwy benderfyniad gweinidogol, yn hytrach na chael eu rhagnodi mewn rheoliadau drwy offeryn statudol. Bydd manylion yr awdurdodiadau ar gael i'r cyhoedd mewn cofrestr neu restr swyddogol a gyhoeddir ac a gynhelir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB).

Bydd yr holl ddeddfwriaeth statudol sy'n cynnwys yr awdurdodiadau presennol yn cael ei dirymu. Bydd yr awdurdodiadau presennol yn parhau i fod yn ddilys ac yn parhau i fod ag effaith yn rhinwedd y darpariaethau trosiannol ac arbedion yn y Rheoliadau. Bydd manylion

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Sarah.Murphy@llyw.cymru
Correspondence.Sarah.Murphy@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yr awdurdodiadau presennol sydd ar gael i'r cyhoedd i'w gweld yn y rhestrau a gyhoeddir ac a gynhelir gan yr ASB.


Bydd y Rheoliadau yn gwneud diwygiadau canlyniadol angenrheidiol i rai deddfwriaethau domestig a deddfwriaethau a gymathwyd. Mae angen mân ddiwygiadau canlyniadol er mwyn i is-ddeddfwriaeth Gymreig bresennol sy'n cyfeirio at ddeddfwriaeth ddiwygiedig barhau i fod yn weithredol. Mae'r is-ddeddfwriaeth Gymreig yn ddwyieithog, a bydd pob newid i'r is-ddeddfwriaeth yn cael ei wneud yn ddwyieithog.

Gan mai is-ddeddfwriaeth yw'r awdurdodiadau, er nad ydynt yn cael eu gwneud drwy offeryn statudol, byddant yn cael eu gwneud yn ddwyieithog a'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ar yr achlysur hwn, ystyrir ei bod hi'n briodol rhoi caniatâd i osod Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cynhyrchion Rheoleiddiedig) (Diwygio, Dirymu, Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol) 2025 gerbron Senedd y DU. Er mwyn bod ar y blaen ag arloesedd yn y maes, ac i baratoi ar gyfer derbyn ceisiadau yn y dyfodol am gynhyrchion arloesol, mae'r ASB am sicrhau bod y system yn gweithio'n effeithlon ac yn effeithiol i ymgeiswyr. Bydd gweithio ar y cyd â Llywodraeth y DU ar offeryn statudol i Brydain Fawr yn darparu dull mwy effeithlon o gyflwyno'r diwygiadau hyn, gan sicrhau eu bod yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws pob gwlad.

Gosodir y Rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 29 Ionawr 2025 ac, os cânt eu cymeradwyo gan Senedd y DU, byddant yn cael eu gwneud gan ddefnyddio pwerau cydamserol yr Ysgrifennydd Gwladol yn adrannau 14(1), (3), (4)(a) a (b) a 20(1) o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 ar 1 Ebrill 2025.

Yn gywir,



**Sarah Murphy AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Minister for Mental Health and Wellbeing